CYFLEOEDD GWAITH
PLACEMENT OPPORTUNITIES

Creu Cymru welcomes the opportunity to support students in Higher Education, graduates or early year creatives in their studies or career by offering opportunities to support our events and activities in return for valuable industry experience.

**About Creu Cymru**
Creu Cymru (www.creucymru.com) champions Wales' vibrant sector of performing arts; connecting people, audiences and communities.

Our members represent virtually all of the nation's professionally run theatres and arts centres and producing companies, and a range of individuals.

Our membership forms a collaborative network; with a strengthened and unified voice that we project and advocate on behalf of to public governing bodies, ensuring vital industry representation and influencing positive change.

Creu Cymru supports venues, companies and individuals in progressive growth strategies. Our Curated visits and research opportunities, specialist training and toolkit resources develop the collective skills and experience of our creative workforces. This ensures that programming across the sector continues to evolve with a focus on equality, relevance and inclusion for new and diverse audiences.

Creu Cymru have recently become a new multi-year funded organisation by Arts Council of Wales.

Creu Cymru also manage Hynt, national access scheme which is an ACW initiative. This includes training, advice and an annual Symposium. We recently carried out an impact report on hynt which showed:

- There are over 30,000 hynt card holders across Wales and over 40 venues are members.
- For every £1 spent on Hynt, £6.05 of social value is created.
- 144,00 more theatre visits across Wales.
- 82% say Hynt makes going to the theatre more affordable.
- 76% of cardholders said being part of Hynt improved their access to culture.
- 89% would go to the theatre less without their Hynt card and 14% would not go at all.
- 81% of cardholders report Hynt increases the amount of social interaction in their lives.
- Hynt generates £42.33 in additional value for venues for every comp ticket allocated.

The full report can be found here: https://creucymru.com/projects/hynt-impact-report

**WHO CAN JOIN?**
Creu Cymru membership helps us to create a vibrant and resilient performing arts sector in Wales. Membership is open to any Wales based professional organisation or individual whose principal purpose is producing, presenting or curating performing arts. In addition, we have an Associate level of membership which is open to Wales based professional organisations working within the theatre or dance sector in a supporting or strategic capacity that can also support the mission of



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Creu Cymru but whose principal purpose is not producing, presenting or curating performing arts work.

Members of Creu Cymru are part of a network of over 75 professional performing arts organisations and individuals throughout Wales. **In addition to helping transform the Welsh performing arts sector,** Creu Cymru provides the following services and benefits to its membership:

- Access to **skills, knowledge and the confidence** to improve individual and organisation practice and advocacy.
- Strong connections in a **national network**.
- The ability to **influence** the influencers.
- **Tailored training and development** opportunities, which are high quality and heavily subsidised for Creu Cymru Members.
- **Annual Conference and AGM** inviting industry leaders to present, share learning and provoke practice and platform for members to showcase their own projects and expertise.
- **Advocacy:** Representing the Welsh Performing Arts Sector to the Welsh Government, Arts Council of Wales and other stakeholders and policymakers.
- Support from a **respected and valued authority,** with a robust and digestible performing arts sector knowledge base.
- Ongoing communication, information and advice services and **online resources**.
- A range of **capacity building projects**
- Regular sector wide opportunities to **network**
- **Membership Meetings** – A range of networking meetings looking at collaborative projects, information sharing and networking.
- **Curated visited and bursaries** - providing opportunities for members to see work, attend training courses, festivals, performances and conferences.
- **Subsidised** Edinburgh accommodation during the Fringe Festival.
- Two monthly **newsletters** full of industry news, offers and touring information.
- Input into **government consultation** responses and sector surveys.
- We **represent Wales across the UK** at industry meetings and political engagements.

## Opportunities

### Hynt Symposium

**What:** An annual day long Conference to share best practice for hynt venues members, hearing from experts, members, those with lived experience.
**When:** Tuesday 12th November 2024 (approximately 10am-4pm)
**Where:** Y Muni, Pontypridd
**How to get involved**: We are a small team and often need support at our events. Areas to get involved include pre-event marketing and promotion, social media support, guest support, speaker liaison and general runners.
You will be able to attend the event, network and learn from those in the room as well as gaining event and arts management experience.

**Creu Cymru Annual Conference**
**What**: The Creu Cymru Conference aims to bring together professionals working across the performing arts in Wales. The Conference will provide opportunities to hear about incredible initiatives, best practice and fantastic cultural events that have been happening in the sector. There will be keynote speakers, panel sessions, workshops, a performance, and an opening night drinks reception.
**When**: 2nd and 3rd April 2025. Set up from 11am, ending approximately 4pm on the 3rd.
**Where:** Wales Millennium Centre, Cardiff.
**How to get involved**: Areas to get involved include pre-event marketing and promotion, social media support, guest support, speaker liaison and general runners.
You will be able to attend the event, network and learn from those in the room as well as gaining event and arts management experience. You are welcome to be there for one or two days.

**Mix up and Pitch**
**What**: A gathering of theatre makers, producers and theatre programmers.
Mix up and Pitch will be an event made up of 5-minute theatre-maker pitches and 2-5-minute venue pitches aimed at sharing new ideas and encouraging the connections to make them happen. Pitches will come from theatre-makers, producers and venues in a spirit of openness and collaboration, ensuring it's a valuable event whether you're pitching or not.
**When**: February 2025 (date tbc)
**Where:** TBC
**How to get involved**: Areas to get involved include pre-event marketing and promotion, social media support, and general runners.
You will be able to attend the event, network and learn from those in the room as well as gaining event and arts management experience.

**Other Ad Hoc Support**
There are often desk based research projects and other ad hoc administrative tasks that could support our work and our members. Please get in touch to see what opportunities there might be at the time. We are a work from home based organisation with no fixed office so you will need to access to IT and a space to work.

Travel expenses and food on the day will be provided at in person events.

If you are interested in any of the above opportunities, please email louise@creucymru.com for an informal chat.

**CONTACT**
Louise Miles-Payne, Director, Creu Cymru
www.creucymru.com
louise@creucymru.com
07380189829



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Creu Cymru yn croesawu'r cyfle i gefnogi myfyrwyr mewn Addysg Uwch, graddedigion neu bobl greadigol ym mlynyddoedd cynnar eu hastudiaethau neu eu gyrfa drwy gynnig cyfleoedd i gefnogi ein digwyddiadau a'n gweithgareddau yn gyfnewid am brofiad gwerthfawr yn y diwydiant.

**Gair am Creu Cymru**
Mae Creu Cymru (www.creucymru.com) yn hybu sector celfyddydau perfformio bywiog Cymru; gan gysylltu pobl, cynulleidfaoedd a chymunedau.

Mae ein haelodau'n cynrychioli bron pob un o theatrau a chanolfannau celfyddydol a chwmnïau cynhyrchu'r wlad sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol, ac amrywiaeth o unigolion.

Mae ein haelodaeth yn ffurfio rhwydwaith cydweithredol; gyda llais cryfach ac unedig y byddwn yn ei gyflwyno ac yn ei eiriol ar ei ran gyda chyrff llywodraethu cyhoeddus, gan sicrhau cynrychiolaeth hanfodol i'r diwydiant a dylanwadu ar newid cadarnhaol.

Mae Creu Cymru yn cefnogi lleoliadau, cwmnïau ac unigolion mewn strategaethau twf blaengar. Mae ein hymweliadau wedi'u curadu a'n cyfleoedd ymchwil, hyfforddiant arbenigol ac adnoddau cymorth yn datblygu sgiliau a phrofiad cyfun ein gweithlu creadigol. Mae hyn yn sicrhau bod rhaglenni ar draws y sector yn parhau i esblygu gan ganolbwyntio ar gydraddoldeb, perthnasedd a chynhwysiant i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol.

Yn ddiweddar, mae Creu Cymru wedi dod yn sefydliad newydd sy'n cael ei ariannu am sawl blwyddyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae Creu Cymru hefyd yn rheoli Hynt, cynllun mynediad cenedlaethol dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant, cyngor a chylch trafod blynyddol. Yn ddiweddar, fe wnaethom gynnal adroddiad effaith ar Hynt a oedd yn dangos y canlynol:

- Mae dros 30,000 o ddeiliaid cerdyn Hynt ledled Cymru ac mae dros 40 o leoliadau yn aelodau.
- Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar Hynt, mae £6.05 o werth cymdeithasol yn cael ei greu.
- 144,00 yn rhagor o ymweliadau theatr ledled Cymru.
- Mae 82% yn dweud bod mynd i'r theatr yn rhywbeth mwy fforddiadwy yn sgil Hynt.
- Dywedodd 76% o aelodau fod bod yn rhan o Hynt wedi gwella eu mynediad at ddiwylliant.
- Byddai 89% yn mynd i'r theatr yn llai aml os na fyddai ganddyn nhw gerdyn Hynt, a fyddai 14% ddim yn mynd o gwbl.
- Mae 81% o ddeiliaid cerdyn yn dweud bod Hynt yn cynyddu lefel y rhyngweithio cymdeithasol yn eu bywyd.
- Mae Hynt yn cynhyrchu £42.33 mewn gwerth ychwanegol ar gyfer lleoliadau ar gyfer pob tocyn cyfarch a ddyrennir.

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: https://creucymru.com/cy/prosiectau/adroddiad-effaith-hynt

**PWY ALL YMUNO?**
Mae aelodaeth yn ein helpu i greu sector celfyddydau perfformio bywiog a chadarn yng Nghymru. Caiff unrhyw unigolyn neu sefydliad proffesiynol yng Nghymru fod yn aelod os mai ei brif bwrpas yw cynhyrchu, cyflwyno neu guradu'r celfyddydau perfformio. Ar ben hyn, rydyn ni'n cynnig aelodaeth Gyswllt sy'n agored i sefydliadau proffesiynol yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector dawns neu theatr mewn swyddogaeth ategol neu strategol sydd hefyd yn gallu cefnogi cenhadaeth Creu Cymru ond nad cynhyrchu, cyflwyno neu guradu gwaith celfyddydau perfformio yw eu prif bwrpas.

Mae aelodau Creu Cymru yn rhan o rwydwaith o dros 75 o sefydliadau ac unigolion proffesiynol ym maes celfyddydau perfformio ar hyd a lled Cymru. **Yn ogystal â helpu i drawsnewid sector celfyddydau perfformio Cymru**, mae Creu Cymru yn darparu'r gwasanaethau a'r buddion canlynol i'w aelodau:

- Mynediad at **sgiliau, gwybodaeth a'r hyder** i wella ymarfer ac eiriolaeth unigolion a sefydliadau.
- Cysylltiadau cryf o fewn **rhwydwaith cenedlaethol.**
- Y gallu i **ddylanwadu** ar y dylanwadwyr.
- Cyfleoedd **hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra'n arbennig**, sydd o safon uchel gyda chymhorthdal hael i Aelodau Creu Cymru.
- **Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol** lle mae gwahoddiad i arweinwyr y diwydiant gyflwyno, rhannu gwersi a ddysgwyd a hybu arferion, a lle mae llwyfan i aelodau arddangos eu prosiectau a'u harbenigedd eu hunain.
- **Eiriolaeth:** Cynrychioli Sector Celfyddydau Perfformio Cymru wrth ymwneud â Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a rhanddeiliaid a llunwyr polisi eraill.
- Cymorth gan awdurdod **sy'n cael ei barchu a'i werthfawrogi**, gyda sylfaen wybodaeth gadarn a hawdd ei deall yn y sector celfyddydau perfformio.
- Gwasanaethau cyfathrebu, gwybodaeth a chyngor parhaus, yn ogystal ag **adnoddau ar-lein.**
- Amrywiaeth o **brosiectau meithrin gallu**
- Cyfleoedd rheolaidd ar draws y sector i **rwydweithio**
- **Cyfarfodydd Aelodaeth** - Amrywiaeth o gyfarfodydd rhwydweithio yn edrych ar brosiectau cydweithredol, rhannu gwybodaeth a rhwydweithio.
- **Ymweliadau a bwrsarïau wedi'u curadu** - rhoi cyfleoedd i aelodau weld gwaith, ymuno â chyrsiau hyfforddi a gwyliau, perfformiadau a chynadleddau.
- Llety â **chymhorthdal** yng Nghaeredin yn ystod Gŵyl y *Fringe*.
- **Cylchlythyr** deufisol sy'n llawn newyddion am y diwydiant, cynigion a gwybodaeth am deithiau.
- Mewnbwn i ymatebion i **ymgynghoriadau'r llywodraeth** ac arolygon o'r sector.
- Rydyn ni'n **cynrychioli Cymru ledled y DU** mewn cyfarfodydd ar gyfer y diwydiant ac mewn digwyddiadau gwleidyddol.

**Cyfleoedd**

**Symposiwm Hynt**
**Beth:** Cynhadledd undydd flynyddol i rannu arferion gorau ar gyfer aelodau lleoliadau Hynt, gan glywed gan arbenigwyr, aelodau, y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol.

**Pryd:** Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2024 (tua 10am-4pm)
**Ble:** Y Muni, Pontypridd
**Sut mae cymryd rhan:** Rydyn ni'n dîm bach ac yn aml mae angen cymorth arnom yn ein digwyddiadau. Mae'r meysydd i gymryd rhan ynddynt yn cynnwys marchnata a hyrwyddo cyn y digwyddiad, cymorth ar y cyfryngau cymdeithasol, cymorth i westeion, cyswllt â siaradwyr a rhedwyr cyffredinol.
Byddwch yn gallu dod i'r digwyddiad, rhwydweithio a dysgu gan y rhai sydd yn yr ystafell yn ogystal â chael profiad o reoli digwyddiadau a'r celfyddydau.

**Cynhadledd Flynyddol Creu Cymru**
**Beth**: Nod Cynhadledd Creu Cymru yw dod â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws y celfyddydau perfformio yng Nghymru at ei gilydd. Bydd y Gynhadledd yn cynnig cyfleoedd i glywed am fentrau anhygoel, arferion gorau a digwyddiadau diwylliannol gwych yn y sector. Bydd siaradwyr gwadd, sesiynau panel, gweithdai, perfformiad a derbyniad â diodydd ar y noson agoriadol.
**Pryd:** 2 a 3 Ebrill 2025. Gellir gosod a pharatoi o 11am ymlaen, gan orffen tua 4pm ar y 3ydd.
**Ble:** Canolfan y Mileniwm, Caerdydd.
**Sut mae cymryd rhan:** Mae'r meysydd i gymryd rhan ynddynt yn cynnwys marchnata a hyrwyddo cyn y digwyddiad, cymorth ar y cyfryngau cymdeithasol, cymorth i westeion, cyswllt â siaradwyr a rhedwyr cyffredinol.
Gallwch ddod i'r digwyddiad, rhwydweithio a dysgu gan y rhai sydd yn yr ystafell yn ogystal â chael profiad o reoli digwyddiadau a'r celfyddydau. Mae croeso i chi fod yno am un neu ddau ddiwrnod.

**Cymysgu a Chyflwyno**
**Beth**: Casgliad o wneuthurwyr theatr, cynhyrchwyr a rhaglenwyr theatr.
Bydd y digwyddiad Cymysgu a Chyflwyno'n cynnwys cyflwyniadau 5 munud gan wneuthurwyr theatr a chyflwyniadau lleoliad rhwng 2 a 5 munud gyda'r nod o rannu syniadau newydd ac annog y cysylltiadau i'w gwireddu. Bydd cyflwyniadau'n dod gan wneuthurwyr theatr, cynhyrchwyr a lleoliadau mewn ysbryd o fod yn agored a chydweithio, gan sicrhau ei fod yn ddigwyddiad gwerthfawr p'un a ydych chi'n cyflwyno syniad ai peidio.
**Pryd:** Chwefror 2025 (dyddiad i'w gadarnhau)
**Ble:** I'w gadarnhau
**Sut mae cymryd rhan:** Mae'r meysydd i gymryd rhan ynddynt yn cynnwys marchnata a hyrwyddo cyn y digwyddiad, cymorth ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhedwyr cyffredinol.
Gallwch ddod i'r digwyddiad, rhwydweithio a dysgu gan y rhai sydd yn yr ystafell yn ogystal â chael profiad o reoli digwyddiadau a'r celfyddydau.

**Cymorth Ad Hoc Arall**

Yn aml, ceir prosiectau ymchwil desg a thasgau gweinyddol ad hoc eraill a allai gefnogi ein gwaith a'n haelodau. Cysylltwch â ni i weld pa gyfleoedd a allai fod ar gael ar y pryd. Rydyn ni'n sefydliad gweithio gartref heb swyddfa sefydlog felly bydd angen i chi gael mynediad at TG a lle i weithio.

Bydd costau teithio a bwyd ar y diwrnod yn cael eu darparu mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn unrhyw un o'r cyfleoedd uchod, anfonwch e-bost at louise@creucymru.com i gael sgwrs anffurfiol.

**CYSWLLT**

Louise Miles-Payne, Cyfarwyddwr, Creu Cymru
www.creucymru.com
louise@creucymru.com
07380189829